

# e - gylchgrawn Addysg Grefyddol

## Geirfa Allweddol

| | |
|---|---|
| **Ahimsa** | Yr egwyddor o beidio niweidio unrhyw beth byw. |
| **Archdderwydd** | Arweinydd yr orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol - *Archdruid* |
| **Atal** | rhoi stop ar / rhwystro - *to stop/prevent.* |
| **Bonhoeffer** | Diwinydd o'r Almaen a wrthwynebodd Hitler |
| **Calafaria** | Ble cafodd Iesu Grist ei groeshoelio - *Calvary.* |
| **Caplan** | Clerigwr neu weinidog o fewn i'r ffydd Gristnogol neu ffydd arall sy'n gweithio gyda'r lluoedd arfog - *chaplain.* |
| **Cefn Pilkem** | Man ger Ypres yng ngwlad Belg lle lladdwyd Hedd Wyn |
| **Conshi** | llysenw dirmygus a ddefnyddid am wrthwynebwyr cydwybodol - *conscientious objector.* |
| **Cyd-ddyn** | Aelod o'r hil ddynol - *fellow man.* |
| **Cydwybod** | Y peth mewnol sy'n gwneud i ni adnabod gweithredoedd da/drwg - *conscience.* |
| **Cynan** | Bardd a chymeriad hynod o bwysig yn hanes eisteddfodol Cymru. |
| **Cyrnol Von Stauffenberg** | Uchel Swyddog ym myddin yr Almaen arweiniodd gynllwyn i lofruddio Hitler. |
| **Difaru** | *to regret, to be sorry for an action.* |
| **Difrod troseddol** | Torri/gwneud niwed i rywbeth a hynny yn erbyn y gyfraith - *Criminal damage* |
| **Dulliau di-drais** | Tynnu sylw at annhegwch heb ddinistrio eiddo na bygwth na brifo pobl. |
| **Egwyddorion** | Barn, argyhoeddiad moesol, sy'n rheoli ymddygiad a gweithredoedd person - *principles* |

| | |
|---|---|
| **Ellis Humphrey Evans** | Enw bedydd Hedd Wyn. |
| **Flossenburg** | un o wersylloedd crynhoi Hitler lle cafodd Bonhoeffer ei ddienyddio. |
| **Gandhi** | Arweinydd y mudiad sicrhaodd annibyniaeth i India. |
| **Gweinidog / ficer** | Person sy'n gweithio i'r eglwys Gristnogol - *minister or vicar.* |
| **Gwrthdaro** | Taro yn erbyn, bod mewn anghytundeb, anghydweld - *conflict.* |
| **Hawliau dynol** | hawliau y dylai fod ar gael i bawb - *human rights.* |
| **Heddwch** | Y gallu i fyw ar delerau da gydag eraill gan osgoi gwrthdaro - *peac* |
| **Heddychwr** | Rhywun sy'n gwrthwynebu'n gyfan gwbl y defnydd o drais - *pacificst/peacemaker* |
| **Jihad** | Y jihad mwyaf yw brwydr bersonol i fyw yn dda. Y jihad lleiaf yw ymladd yn enw Islam |
| **Karma** | Gweithredoedd o bob math sy'n arwain at ganlyniadau. |
| **Kosovo** | Ar ôl i Yugoslavia chwalu fel gwlad yn 1990 cafwyd brwydro ffyrnig rhwng yr Albaniaid a phobl Serbia, a bu'n rhaid i luoedd NATO ymyrryd. Daeth y brwydro i ben yn 199 |
| **Lifrai** | Gwisg unffurf swyddogol - *Uniform.* |
| **Llawysgrif** | Llyfr, dogfen a ysgrifennwyd â'r llaw (weithiau dogfen sy'n hen iawn) - *manuscript* |
| **Lluoedd arfog** | grŵp o bobl sy'n cario arfau - *armed forces.* |
| **Mahabharata** | Cerdd hir Hindŵaidd |
| **Marting Luther King** | Arweinydd y mudiad hawliau sifil yn America |
| **Offeren** | Gwasanaeth sy'n cynnwys yr Ewcharist neu Swper yr Arglwydd ac fel arfer sy'n dilyn trefn yr Eglwys Gatholig Rufeinig - *mass* |
| **Penbedw** | Birkenhead - lle cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1918. |
| **Prifardd** | Bardd sydd wedi ennill y gadair neu'r goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol - *bard who has won the chair or the crown at the National Eisteddfod* |
| **Pryddest** | Cerdd hir |
| **Rhyfel** | Sefyllfa o wrthdaro arfog rhwng dwy gymdeithas neu wlad - *war.* |
| **Rhyfel Cyfiawn** | Rhyfel i amddiffyn y diniwed neu rai a orthrymir ac i sicrhau cyfiawnder a heddwch; |
| **Swyddogaeth** | Rôl person, swydd; cylch neu faes arbennig o weithgarwch - *role* |
| **Terfysgaeth** | Defnyddio trais annerbyniol yn erbyn eraill, aelodau diniwed o gymdeithas yn aml iawn - *terrorism.* |
| **Terry Waite** | Fel llysgennad i Eglwys Loegr, teithiodd i Lebanon i geisio sicrhau rhyddhad pedwar gwystlon, ond cafodd ei herwgipio ei hun ac roedd yn gaeth am bedair blynedd. |

| | |
|---|---|
| **Trais** | Ymddygiad sy'n cynnwys defnydd o rym corfforol gyda'r bwriad o frifo neu ladd - *violence.* |
| **Tramgwyddo** | torri ar - *to offend/ to violate* |
| **Tyngu llw** | addo gwneud rhywbeth - *to swear an oath* |